



Trefniadau Diogelu Oedolion y Tu Allan i'r Dalgylch

Canllawiau ar gyfer Gwneud Trefniadau Ymholi ac
Amddiffyn er mwyn Diogelu Oedolion Rhwng
Awdurdodau

Protocol Aml-asiantaeth Gogledd Cymru

Statws: Fersiwn Drafft 1 Fersiwn 3	Arweinydd y Protocol: Is-grŵp Protocol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru Cylchredwyd i'r Grŵp Cyflenwi Ymarfer 07/18 Cytunwyd gan y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau 18/06/18 Cytunwyd gan y Bwrdd: 28/11/2018
Dyddiad cadarnhau: 28/11/2018	Dyddiad adolygu: 11/2020

Pwrpas

- 1.2. Nod y ddogfen hon yw ategu canllawiau statudol presennol a pholisïau a gweithdrefnau lleol trwy ddarparu canllawiau ychwanegol er mwyn ymateb i bryderon diogelu sy'n cynnwys ystyriaethau traws-ffiniol. Mae aelodau o Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn cydnabod y perygl a'r cymhlethdod cynyddol sy'n gysylltiedig â diogelu oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Gall y rhain godi pan fydd awdurdod mewn un ardal yn gyfrifol am ariannu / comisiynu oedolyn tra bo pryderon am gamdriniaeth a/neu ecsbloetiaeth posibl tuag at yr oedolyn hwnnw yn cael eu codi mewn ardal arall.
- 1.2. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 i rym ym mis Ebrill 2016 ac am y tro cyntaf rhoddwyd sail statudol i ddiogelu oedolion a rhoddwyd amrywiaeth o ddyletswyddau a chyfrifoldebau newydd ar awdurdodau lleol a rhannau eraill o'r system er mwyn amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau fod oedolion sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys: cyfrifoldeb i sicrhau bod ymholiadau'n cael eu gwneud os caiff meini prawf diogelu eu cyflawni; y ddyletswydd i sefydlu Byrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol; gofyniad i gynnal Adolygiadau Diogelu Oedolion; dyletswyddau rhannu gwybodaeth a chydweithredu; a dyletswydd gonestrwydd darparwyr gofal.
- 1.3. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithio rhwng awdurdodau ar ymholiadau diogelu wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, y canllawiau statudol cysylltiedig a'r ethos a'r safonau arfer gorau sy'n gysylltiedig ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person.
- 1.4. **Awdurdod Cynnal** – Awdurdod Lleol yr ardal lle digwyddodd y gamdriniaeth honedig ac, o ganlyniad, sydd â dyletswydd A126 i wneud ymholiadau neu achosi iddynt gael eu gwneud (p'un a yw'r awdurdod cynnal yn comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i'r oedolyn ai peidio).
- 1.5. **Awdurdod Lleoli** - Yr Awdurdod Lleol neu'r Corff GIG sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i unigolyn sy'n destun ymholiad diogelu oedolion.
- 1.6. Efallai y bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae oedolyn yn cael ei gam-drin mewn ardal arall mewn tymor byr iawn, er enghraifft, os ydynt yn dioddef camdriniaeth ar y stryd mewn awdurdod cyfagos neu os oes digwyddiad yn ystod trip undydd neu wyliau. Cydnabyddir bod y ddyletswydd statudol yn aros gyda'r awdurdod cynnal yn y man lle digwyddodd y gamdriniaeth honedig. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn dylai'r awdurdod cyfrifol neu'r awdurdod sy'n ariannu a'r awdurdod lle bu'r digwyddiad honedig gael trafodaeth i bennu pa un ddylai ymgymryd â'r ymholiad diogelu.
- 1.7. Mae'n hanfodol sicrhau bod y person yn aros yn ganolog i'r ymholiad, bod yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r person yn cysylltu â'i gilydd yn effeithiol gan gynnwys, er enghraifft, yr heddlu neu sefydliadau iechyd, a'u bod yn dod i gytundeb prydlon ynglŷn â sut i gynnal yr ymholiad.
- 1.8. Os yw'r unigolyn yn ariannu ei hun, ac os nad oes awdurdod lleol yn gysylltiedig â chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, yr awdurdod cynnal sydd â dyletswydd ymholiad A126, waeth o ba ardal y mae'r oedolyn yn tarddu. Efallai y bydd angen i'r awdurdod cynnal

ymgynghori â chlinigwyr neu wasanaethau eraill o'r ardal y mae'r person yn tarddu ohono, os oes ymgysylltiad wedi bod yn y gorffennol a allai fod yn berthnasol.

- 1.9. Nod y canllawiau hyn yw egluro'r cyfrifoldebau a'r camau gweithredu strategol a gweithredol y dylai awdurdodau cynnal ac awdurdodau lleoli eu cymryd gydag ymholiadau diogelu sy'n ymwneud â phobl sy'n byw mewn un ardal, ond lle mae'r cyfrifoldeb am eu comisiynu yn aros gyda'r ardal y mae'r person yn tarddu ohoni, neu berson sydd wedi cael ei gam-drin mewn ardal y tu allan i'w ardal breswyllo arferol.
- 1.10. Gall y gwaith o reoli ymholiad sefydliadol diogelu oedolyn mewn perthynas â darparwr gofal fod yn arbennig o gymhleth a beichus i'r awdurdod cynnal os oes llawer o wahanol awdurdodau lleoli yn gysylltiedig â'r ymholiad. Gall hyn gynnwys comisiynwyr gofal cymdeithasol ac iechyd.

1.0. Egwyddorion Allweddol

- 2.1. Mae Rheoliadau Diogelu yn datgan y bydd cwmpas ymholiad, pwy sy'n ei arwain, beth yw ei natur a faint o amser y bydd hynny yn ei gymryd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Mae hefyd yn datgan bod yn rhaid i bawb sy'n gysylltiedig ganolbwyntio ar wella lles yr oedolyn a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nod a rennir. Mae nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdodau cynnal a lleoli ar ddechrau'r ymholiad yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lles y person a'i ganlyniadau dymunol yn parhau'n hollbwysig. Dylai cyd-drafod yn gynnar arwain at nodi'n glir beth yw'r swyddogaethau a'r disgwyliadau, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau, cytuno ar amserlenni i leihau unrhyw lithriadau wrth ymgymryd â'r ymholiad, a chytuno ar y person gorau i ymgymryd â hyn, gan gymryd i ystyriaeth y pellter daearyddol.
- 2.2. Gyda dyletswydd ymholiad Adran 126 Deddf GCaLI, bydd gan yr awdurdod cynnal gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid yn cyfathrebu'n dda, yn enwedig o ran trefnu cyfarfodydd a chynllunio'r ymholiad. Os yw pellter yn broblem ac os yw'n debygol o oedi cyfarfodydd gofynnol, gellir ystyried defnyddio technoleg megis telegynadleda, skype a dolenni fideo er mwyn lleihau unrhyw oedi.
- 2.3. Os yw awdurdod lleoli yn gysylltiedig â chomisiynu gwasanaeth, bydd yr awdurdod hwnnw yn cyfrannu at yr ymholiad yn ôl y gofyn, ac yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros y person y maent wedi'i leoli, gan gynnwys asesiad o anghenion a chynllunio gofal a chymorth.
- 2.4. Dylai'r awdurdod lleoli sicrhau, trwy gytundebau contract ac mewn manylebau gwasanaeth, bod gan y darparwr drefniadau mewn lle i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod ac am reoli pryderon, a dylai'r rheiny fod yn unol â pholisïau a gweithdrefnau diogelu oedolion aml-asiantaeth y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Lleol (awdurdod cynnal). Gall yr awdurdod lleoli wneud penderfyniadau o dan ei weithdrefnau monitro contract ynglŷn â'i contract gyda'r darparwr, gan gynnwys atal lleoli pobl gyda'r darparwr.
- 2.5. Efallai y bydd angen i awdurdod cynnal gymryd camau brys i ddiogelu unigolyn. Yn ystod ymholiad, gall awdurdodau cynnal a lleoli gytuno mai gwasanaethau lleol fyddai orau er mwyn diwallu anghenion sy'n codi o'r ymholiad. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol a'r awdurdod cynnal gyd-drafod trefniadau hyblyg er mwyn cael yr ymateb mwyaf priodol i sicrhau lles yr oedolyn.
- 2.6. Os bydd ymateb brys yn ofynnol, mae lles y person sy'n cael ei ddiogelu yn dal i fod yn hollbwysig ac mae'n bosibl y bydd gofyn i awdurdod cynnal gymryd camau ar ran yr awdurdod lleoli. Mewn achosion felly, dylai'r awdurdod cynnal sicrhau bod yr awdurdod lleoli yn cael ei hysbysu a'i fod yn rhan o drafodaethau am yr ymateb cyn gynted ag sy'n bosibl. Efallai y bydd yr awdurdod cynnal yn mynd i gostau a ddylai, ym marn yr awdurdod cynnal, gael eu talu gan

yr awdurdod lleoli. Dylid rhoi cyfle i'r awdurdod lleoli, lle bo hynny'n bosibl, i gytuno ar y costau dan sylw, ond dylid cydnabod na fydd hynny bob amser yn bosibl. Mewn achosion felly, dylai'r awdurdod cynnal gadw'r costau mor isel ag sy'n bosibl, ac efallai y bydd cynnal trafodaethau ôl-weithredol ynglŷn â chostau.

- 2.7. Mae gan ddarparwyr gofal a chymorth hawliau a chyfrifoldebau ac mae'n bosibl y bydd gofyn iddynt gynnal ymholiad. Mae'n bosibl y bydd gan y darparwr ddyletswyddau fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth i fynd i'r afael ag arferion gwael neu broblemau disgyblu. Mae'n rhaid i'r awdurdod cynnal sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn brydlon â'r darparwr gofal trwy gydol yr ymholiad, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu dan arweiniad y person a'u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau trwy gydol yr amser. Dylid annog diwylliant agored o amgylch diogelu gan weithio mewn partneriaeth â'r darparwr er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r oedolyn. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i ddarparwr gofal roi enwau'r oedolion a effeithir gan y pryderon diogelu i'r awdurdod cynnal, gan gynnwys pobl sydd o bosibl yn ariannu eu gofal eu hunain, a hefyd lle bo hynny'n berthnasol, awdurdod lleoli pob person.
- 2.8. O dan Ran 10 Cod Ymarfer Eiriolaeth y Ddeddf GCalI 2014, mae'n bosibl y bydd gofyn i awdurdodau lleol perthnasol drefnu eiriolaeth annibynnol i oedolion yn ôl y gofyn. Bydd yr awdurdod cynnal yn gyfrifol am sicrhau y ceisir barn a dymuniadau'r oedolyn mor gynnar ag sy'n bosibl, ac i drefnu eiriolaeth annibynnol os yw'n ofynnol. Dylai'r awdurdodau cynnal a lleoli gyfathrebu â'i gilydd mor gynnar ag sy'n bosibl ynglŷn â sut i gyflawni hyn ar gyfer pob oedolyn.
- 2.9. Os caiff Adolygiad Diogelu Oedolion ei ystyried bydd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gyfrifol am gadw mewn cysylltiad â phawb dan sylw, gan gynnwys y BDO mewn unrhyw awdurdodau lleoli. Dylai Rheolwyr y Byrddau perthnasol a'r Cadeiryddion Annibynnol gytuno sut y bydd yr Adolygiad Diogelu Oedolion yn cael ei gynnal. Dylai byrddau a sefydliadau gydweithredu ar draws ffiniau a dylid ymateb i geisiadau am wybodaeth fel mater o flaenoriaeth. Os na ellir dod i gytundeb am y gofyniad i gynnal ADO, caiff y mater ei ddatrys yn gyntaf gan Reolwyr y Byrddau perthnasol, a bydd y penderfyniad a'r drafodaeth derfynol yn cael ei phennu gan Gadeirydd Annibynnol y Bwrdd Diogelu Oedolion. Bydd Cadeiryddion Annibynnol yn cytuno ar y dulliau o gyflwyno'r ADO sydd â dysgu traws-ffiniol.
- 2.10. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio swyddogaethau priodol yr awdurdod cynnal, yr awdurdod lleoli a'r darparwr gwasanaeth ym mhob cam o'r broses ddiogelu, o godi pryder am ddiogelu trwedd i gynnal ymholiad diogelu, cyflawni canlyniad i'r person a chyfrifoldebau parhaus dros gynllunio ac adolygu.

2.0. Pryderon Diogelu

3.1. Awdurdod Cynnal

- 3.2. Byddai pryder diogelu yn cael ei godi yn gyntaf gyda naill ai awdurdod cynnal neu awdurdod lleoli. Os yw'r pryder yn cael ei godi gyntaf gyda'r awdurdod cynnal rhaid iddo bob amser geisio hysbysu pob awdurdod lleoli dan sylw cyn gynted ag sy'n bosibl o honiadau sy'n cynnwys un neu fwy o ddefnyddwyr eu gwasanaeth sef naill ai'r person sydd wedi dioddef o'r gamdriniaeth honedig neu'r person sydd wedi achosi'r gamdriniaeth honedig.
- 3.3. Unwaith y bydd pryder diogelu wedi'i godi gyda'r awdurdod cynnal, yr awdurdod cynnal sy'n gyfrifol wedyn am arwain yr ymateb dechreuol i'r pryder mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleoli. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen i'r awdurdod cynnal gymryd camau ar unwaith i amddiffyn yr oedolyn, er enghraifft, trwy gysylltu â'r heddlu neu wasanaethau brys eraill. Mewn cysylltiad â'r awdurdod lleoli, bydd yr awdurdod cynnal yn ceisio asesiad meddygol o unrhyw anafiadau/pryderon lle bo hynny'n briodol.

- 3.4. Os oes angen symud oedolyn i le diogel fel rhan o'r cynllun diogelu, dylid gwneud hynny mewn cytundeb â'r person, ei deulu a'r awdurdod lleoli os yw hynny'n bosibl. Mae'r cyfrifoldebau ariannu yn aros gyda'r awdurdod lleoli. Caiff trefniadau amddiffyn eu hadolygu trwy gydol proses yr ymholiad. Ni ddylai diffyg cytundeb dechreuol ynghylch trefniadau ariannu atal yr awdurdod cynnal rhag cymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn person.
- 3.5. Bydd yr awdurdod cynnal yn cydlynu'r ymholiad yn unol ag egwyddorion y Canllawiau Ymdrin ag Achosion Unigol, casglu gwybodaeth am y pryder, gan gynnwys gwybodaeth a allai gael ei gadw gan asiantaethau eraill, er enghraifft yr heddlu, AGGCC neu asiantaethau iechedd mewn perthynas â'r darparwr a/neu bobl sy'n gysylltiedig, gan sicrhau bod yr awdurdod lleoli ac asiantaethau perthnasol eraill yn cael eu hysbysu'n brydlon.
- 3.6. Bydd yr awdurdod cynnal yn dyrannu gweithiwr â chymwysterau addas i weithredu fel cydlynnydd arweiniol a enwir gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ymholiad.

3.7. Awdurdod Lleoli

3.8. Pan fydd awdurdod lleoli yn cael ei hysbysu o bryder diogelu bydd yn:

- Sicrhau ar unwaith bod yr awdurdod cynnal wedi cael gwybod
- Gwirio p'un a yw'r trefniadau gofal a chymorth yn parhau i ddiwallu'r angen
- os oes angen, ceisio lleoliad amgen, gan sicrhau bod y darparwr presennol wedi gwneud darpariaeth ddigonol i amddiffyn y person a diwallu ei anghenion gofal ar unwaith nes iddo/iddi symud, cadw mewn cysylltiad â'r awdurdod cynnal lle bo hynny'n briodol
- Darparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r cydlynnydd arweiniol a enwyd yn yr awdurdod cynnal
- Ystyried eiriolaeth

3.9. Y Darparwr Gwasanaeth

- 3.10. Mae gan ddarparwyr ddyletswydd i hysbysu'r rheoleiddiwr o unrhyw bryderon diogelu sy'n codi am unrhyw oedolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau
- 3.11. Dylid codi unrhyw bryderon diogelu gyda'r awdurdod cynnal, yn unol â'r gweithdrefnau aml-asiantaeth, pwy bynnag y credir yw'r ffynhonnell risg. Wrth godi pryder, dylai'r darparwr roi manylion cyswllt clir, a gwybod am yr hyn sydd wedi cael ei wneud hyd yma i ddiogelu unrhyw oedolion sydd mewn perygl. Bydd hyn yn cefnogi'r awdurdod lleol â'i ddyletswydd i wneud ymholiadau neu achosi i ymholiadau gael eu gwneud.

3.0. Ymgymryd ag ymholiadau diogelu

4.1. Awdurdod Cynnal

- 4.2. Yr awdurdod cynnal sy'n gyfrifol am sicrhau bod ymholiad Adran 126 yn cael ei gynnal yn unol â'r prosesau penderfynu cenedlaethol a gynhwysir yn y gweithdrefnau diogelu oedolion. Gall hyn gynnwys trefnu trafodaeth neu gyfarfod i gynllunio a sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol priodol ac asiantaethau lleol perthnasol eraill yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Dylai'r cydlynnydd arweiniol a enwyd gysylltu â'r awdurdodau lleoli ynghlŷn â'r trefniadau cynllunio i hwyluso'r cyfraniad mwyaf bosibl.

- 4.3. Efallai y bydd angen cynnwys y corff GIG perthnasol, yr Heddlu ac AGC yn y trafodaethau cynllunio aml-asiantaeth. Bydd y cydlynnydd arweiniol a enwyd yn ymdrechu i sicrhau bod pob asiantaeth yn cydweithio'n effeithiol gan gymryd i ystyriaeth egwyddorion Ymdrin ag Achosion Unigol ac efallai y bydd yn cadeiryddio trafodaethau neu gyfarfodydd yn ôl y gofyn. Byddant yn gwahodd yr awdurdod lleoli i gymryd rhan yn y trefniadau cynllunio, a bydd disgwyl i awdurdodau lleoli'r defnyddwyr gwasanaeth a effeithir gan y cyhuddiadau gyfrannu, naill ai'n bersonol, neu trwy ddefnyddio technoleg. Dylai'r awdurdod lleoli ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r broses gynllunio, gan gynnwys adroddiadau ysgrifenedig.
- 4.4. Bydd y broses gynllunio yn cytuno ar swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn ymgymryd â'r ymholiad, a'r awdurdod cynnal fydd â'r cyfrifoldeb o gydlynu'r ymholiad. Yn y drafodaeth gynllunio mae'n bosibl y bydd angen neilltuo tasgau i'r awdurdod lleoli. Os nad yw'r awdurdod lleoli'n bresennol bydd y cydlynnydd arweiniol a enwyd yn gyfrifol am gadarnhau cytundeb gyda'r awdurdod lleol ynglŷn â'r tasgau a neilltuir.
- 4.5. Bydd hefyd yn gosod strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu glir a fydd yn cynnwys cyfathrebu â phawb a effeithir gan y pryder diogelu oedolyn: - defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, gofalywyr a gwasanaethau eirioli, gan gynnwys gwasanaethau Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol lle bo hynny'n briodol a gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol os nodir anawsterau sylweddol. Dylid adolygu'r strategaeth hon yn rheolaidd. Bydd yr awdurdod cynnal yn rhannu'r cofnodion gyda'r holl wahoddedigion, gan gynnwys AGGCC mewn cysylltiad â gwasanaeth a reoleiddir.
- 4.6. Bydd y broses gynllunio hefyd yn cytuno a fydd awdurdodau lleoli eraill yn cael eu hysbysu o'r pryderon a godwyd, ac os felly, sut y bydd hyn yn cael ei wneud, pam a gan bwy? Bydd y cydlynnydd arweiniol a enwyd yn sicrhau bod pob penderfyniad a cham gweithredu a gytunwyd yn cael eu bwydo'n ôl i awdurdod lleol os ydynt yn absennol o'r drafodaeth gynllunio, a byddant yn cadw mewn cysylltiad â'r awdurdod lleoli trwy gydol yr ymholiad. Bydd hyn yn sicrhau:
- Bod y canlyniadau a geisir gan yr oedolyn yn eglur ac yn cael eu cytuno ar y cyd gan yr oedolyn, yr awdurdod cynnal a'r awdurdodau lleoli.
 - Bod unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall o unrhyw waith a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleoli yn cael ei fwydo i mewn i'r ymholiad.
 - Bod yr awdurdod lleoli yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymholiad

4.7. Awdurdod Lleoli

- 4.8. Dylai'r awdurdod lleoli gadw mewn cysylltiad â chydlynnydd arweiniol a enwyd yn yr awdurdod cynnal ynglŷn â chynnal yr ymholiad Adran 126. Dylai'r awdurdod lleoli ddarparu cynrychiolydd sydd ag awdurdod priodol i wneud penderfyniadau i fynychu a chymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd cynllunio a drefnir gan yr awdurdod cynnal.
- 4.9. Dylai'r awdurdod lleoli ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r ymholiad trwy'r cydlynnydd arweiniol a enwyd yn yr awdurdod cynnal. Wrth gynllunio'r ymholiad mae'n bosibl y bydd angen neilltuo tasgau i'r awdurdod lleoli. Disgwylir y bydd gan yr awdurdod lleoli berthynas sefydledig gyda'r oedolyn mewn perygl. Gan hynny efallai mai nhw fydd y sefydliad mwyaf priodol i ganfod barn a dymuniadau'r person a chynnal ymholiadau dechreuol gyda nhw.
- 4.10. Os bydd angen cynnal asesiad galluedd meddyliol a/neu os bydd angen Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol fel rhan o'r ymholiad diogelu, dylai'r awdurdod lleol gadarnhau gyda'r awdurdod cynnal sut y caiff hyn ei ddarparu neu ei gomisiynu, fel rhan o'r trafodaethau cynllunio.

4.11. Y Darparwr Gwasanaeth

- 4.12. Efallai y bydd yr awdurdod cynnal yn trafod y pryder gyda'r darparwr, penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, ac efallai y bydd yn achosi i'r darparwr wneud ymholiadau. Mae canllawiau statudol cynlluniau gofal a chymorth yn nodi'n glir bod gan y darparwr ddyletswyddau fel darparwr gwasanaeth ac fel cyflogwr. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:
- Ymdrin â materion cyflogaeth / disgyblu
 - Amddiffyn yr oedolyn mewn perygl
 - Archwilio i ddigwyddiadau
 - Sicrhau comisiynwyr a rheolyddion
 - Atal digwyddiadau rhag digwydd eto a'r perygl i eraill
 - Adrodd am bryderon
- 4.13. Mae'r canllawiau statudol yn nodi'n glir y dylai'r darparwr ymchwilio i'r pryderon oni bai bod rheswm cymhellol pam y byddai'n amhriodol neu'n beryglus gwneud hynny. Byddai rhesymau cymhellol yn cynnwys:
- gwrthdaro buddiannau difrifol ar ran y cyflogwr, er enghraifft, busnes teuluol lle mae camdriniaeth sefydliadol honedig, neu ble mae rheolwr neu berchennog gwasanaeth yn gysylltiedig.
 - Pryderon sy'n cael eu codi am ymholiadau aneffeithiol o'r gorffennol neu fwy nag un pryder difrifol
 - Mater sy'n gorfod cael ei ymchwilio gan yr heddlu
- 4.14. Os yw'r darparwr yn gwneud yr ymholiad, dylai fod yn ofalus o'r gofyniad i gynnwys yr oedolyn yn llawn, ac yn arbennig gofyn iddynt (neu eu cynrychiolydd neu eiriolwr) pa ganlyniad yr hoffent ar ôl codi'r pryder diogelu. Dylid cofnodi hyn ac adrodd yn ôl i'r awdurdod lleol cynnal fel rhan o'r ymholiad.
- 4.15. Dylai darparwyr gyflenwi manylion cyswllt awdurdodau lleoli sy'n gyfrifol am yr oedolion sy'n gysylltiedig â'r ymholiad, fel bo modd i'r awdurdod cynnal gysylltu â nhw. Dylent hefyd ddarparu gwybodaeth am unrhyw oedolion mewn perygl sy'n ariannu eu hunain
- 4.16. Dylai darparwyr gydweithio â'r awdurdod lleol cynnal i drafod beth ddylai'r ymholiad ei gwmpasu, a hefyd gyda'r awdurdodau lleoli perthnasol i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn wrth ailasesu anghenion. Gall hynny olygu cymryd rhan mewn cyfarfodydd diogelu yn unol â'r gweithdrefnau aml-asiantaeth lleol.
- 4.17. Ar ôl cwblhau'r ymholiad diogelu bydd yr awdurdod cynnal yn rhannu'r adroddiad(au) ymholiad gyda'r awdurdod lleoli er mwyn trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw drefniadau diogelu.
- 4.18. Pwrpas y drafodaeth hon yw:
- Rhannu canlyniad yr ymholiad
 - Cytuno ar argymhellion ynglŷn â chanlyniad yr ymholiad, gan gynnwys i ba raddau y mae wedi gallu cyflawni'r canlyniad i'r oedolyn mewn perygl, neu beth arall yr hoffent ei weld yn digwydd.
 - Nodi unrhyw farn wahanol a'r cyfleoedd posibl i'w datrys
 - Cytuno sut y cyfathrebir â'r person, y teulu, gofalwr a'r eiriolwr ynglŷn â chanlyniad yr ymholiad a chynnwys yr adroddiad(au) gan sicrhau bod y person yn ganolbwynt i'r gwaith.
 - Cytuno sut yr hwylusir presenoldeb yr oedolyn, y teulu, gofawyr neu eiriolwr a/neu sut yr adlewyrchir eu barn yn y canlyniad
 - Trafod y cynnwys a argymhellir ar gyfer y cynllun diogelu lle bo hynny'n briodol
 - Cytuno ar drefniadau ar gyfer adolygu'r cynllun diogelu yn barhaus.

- 4.19. Os yw darparwr gwasanaeth wedi cynnal yr ymholiad, byddant yn cysylltu â'r awdurdod cynnal gyda'u canfyddiadau fel y gall yr awdurdod cynnal benderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar allbynnau'r tîm diogelu.

Allbwn yw cynnyrch gweithgaredd penodol, e.e. gosod llinell ofal, sefydlu dirprwyaeth neu atgyfeiriad i gymorth i ofalwyr. Pwrpas allbwn yw cyflawni canlyniad. Canlyniad yw'r effaith neu'r newid sy'n digwydd, e.e. teimlo'n fwy diogel, mwy o reolaeth neu lai o straen.

Bydd allbwn y broses ddiogelu yn helpu'r dinesydd i gyflawni'r canlyniadau y maent wedi'u nodi, fel rhan o sgwrs sy'n canolbwyntio ar y person.

5.1. Awdurdod Cynnal

- 5.2. Ar ôl i'r ymholiad gael ei gwblhau, dylid dod i gasgliadau i weld a gyflawnwyd canlyniadau dymunol yr oedolyn mewn perygl, lefel unrhyw risgiau sy'n weddill a p'un a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Enghreifftiau o hyn yw pan ganfyddir mai gweithiwr proffesiynol neu aelod o staff yw ffynhonnell y risg, atgyfeiriad at reolydd proffesiynol neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDaG) (neu'r ddau).

- 5.2. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan y cydlynnydd arweiniol a enwyd mewn ymgynghoriad â'r oedolyn a phartïon eraill sy'n gysylltiedig â'r ymholiad. Os oes angen cynnal cyfarfod i drafod canlyniad yr ymholiad ac unrhyw gamau pellach sy'n ofynnol, bydd yr awdurdod cynnal yn trefnu cyfarfod gan gyfathrebu â'r oedolyn neu'r cynrychiolydd a'r awdurdod lleoli.

5.3. Awdurdod Lleoli

- 5.4. Os oes angen cynnal cyfarfod, bydd yr awdurdod lleoli yn mynychu'n bersonol neu trwy dechnoleg. Bydd yr awdurdod lleoli'n sicrhau bod aelodau o'r teulu'n cael eu gwahodd i'r cyfarfod lle bo hynny'n briodol. Os oes angen, bydd yr awdurdod lleoli'n cefnogi teuluoedd â threfniadau teithio ac unrhyw gostau teithio rhesymol os cytunir. Nid cyfrifoldeb yr awdurdod cynnal yw hyn.

- 5.5. Os na all yr oedolyn, y teulu, gofalwyr neu eiriolwr fynychu'r cyfarfod canlyniadau, bydd yr awdurdod lleoli'n gyfrifol am sicrhau bod eu barn yn cael ei roi fel bo modd iddynt gael eu cynrychioli yn y broses ac er mwyn sicrhau bod canlyniad y cyfarfod yn cael ei fwydo'n ôl iddynt.

- 5.6. Os oes angen nodi cynllun diogelu unigol, bydd y cyfarfod canlyniadau'n trafod a chytuno ar drefniadau amddiffyn i'w rhoi mewn lle gan yr awdurdod lleoli. Efallai y caiff camau pellach eu cytuno hefyd sy'n ymwneud â darparwr y gwasanaeth neu grŵp ehangach o ddefnyddwyr y gwasanaeth.

5.7. Y Darparwr Gwasanaeth

- 5.8. O ganlyniad i'r trafodaethau am y canlyniadau, efallai y bydd angen i'r darparwr gofal gymryd camau pellach. Gallai'r rhain gynnwys hyfforddiant i staff, newidiadau i ganllawiau gweithredol, gwneud atgyfeiriadau i reolyddion neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

6.0 Gweithredu'r cynllun diogelu

6.1. Awdurdod Cynnal

- 6.2. Yn dilyn yr ymholiad, mae'n bosibl y bydd cynllun diogelu'n ofynnol i gadarnhau camau angenrheidiol a phwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu. Nid yw cynllun diogelu yn gynllun gofal a chymorth; bydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal sy'n gysylltiedig â'r agweddau sy'n diogelu yn erbyn camdriniaeth neu esgeulustod yn unig, neu sy'n cynnig datrysiad therapiwtig neu un sy'n seiliedig ar adfer.
- 6.3. Dylai'r **Cynllun Diogelu** osod:
- Barn, dymuniadau a nodau'r oedolyn a lefel y risg y mae ef/hi yn gyfforddus ag o
 - Pa gamau i'w cymryd i sicrhau diogelwch yr oedolyn mewn perygl yn y dyfodol;
 - Darparu unrhyw gefnogaeth, triniaeth neu therapi, gan gynnwys eiriolaeth parhaus;
 - Unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y ffordd y darperir y gwasanaethau (e.e. gofal neu leoli gyda phobl o'r un rhyw; penodi dirprwy ar gyfer Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus); Y ffordd orau o gefnogi'r oedolyn trwy unrhyw gamau yr hoffent eu cymryd i geisio cyfiawnder neu iawndal;
 - Unrhyw strategaeth rheoli risg parhaus fel sy'n briodol.
- 6.4. Dylai'r cynllun amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r holl unigolion ac asiantaethau sy'n cymryd rhan; dylai nodi'r gweithiwr proffesiynol arweiniol a fydd yn monitro ac adolygu'r cynllun, a phryd y bydd hyn yn digwydd. Dylai cynlluniau diogelu ganolbwyntio ar y person ac ar ganlyniadau a dylai'r oedolyn dan sylw gyfrannu'n llawn atynt. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yn briodol i gynlluniau diogelu gael eu monitro trwy gyfrifoldebau rheoli gofal parhaus. Mewn sefyllfaoedd eraill efallai y bydd adolygiad penodol o'r cynllun diogelu yn ofynnol. Os oes angen i'r cynllun diogelu gael ei adolygu, dylai pawb dan sylw gytuno ar yr amserlen ar y cyd.
- 6.5. Os dyrennir unrhyw dasgau i'r awdurdod cynnal mewn perthynas â'r lleoliad gofal, yr awdurdod cynnal sy'n gyfrifol am hysbysu'r awdurdod lleoli ac asiantaethau perthnasol eraill o'r cynnydd sydd wedi'i wneud neu unrhyw bryderon ychwanegol a godwyd.
- 6.6. Mae'r awdurdod cynnal hefyd yn gyfrifol am fwydo gwybodaeth yn ôl am gynnydd a/neu pryderon i gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac AGGCC (gweler y datganiad am swyddogaethau a chyfrifoldebau AGGCC o ddiogelu plant ac oedolion, Medi 2017). Rhaid i'r awdurdod cynnal rannu'r cofnodion gydag AGGCC pan fo cyhuddiadau'n cynnwys gwasanaeth a reoleiddir, hyd yn oed os nad yw AGGCC wedi cael ei gynrychioli yn y drafodaeth am ganlyniadau.
- 6.7. **Awdurdod Lleoli**
- 6.8. Bydd yr awdurdod lleoli yn hysbysu'r awdurdod cynnal ar ôl cwblhau unrhyw gamau amddiffyn a gytunwyd yn dilyn yr ymholiad. Awdurdodau lleoli'r unigolion sy'n gyfrifol am eu cynlluniau amddiffyn parhaus ac am adolygu cynlluniau diogelu pob unigolyn.
- 6.9. **Y Darparwr Gwasanaeth**
- 6.10. Efallai y bydd angen i'r darparwr gymryd rhan mewn cyfarfodydd diogelu pellach yn unol â gweithdrefnau aml-asiantaeth cenedlaethol, er mwyn adolygu a gyflawnwyd canlyniadau dymunol yr oedolyn mewn perygl, p'un a yw'r cynlluniau diogelu yn gweithio a p'un a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

7.0. Lleoliadau GIG

- 7.1. Yn ystod y broses Diogelu Oedolion mae'n bosibl cynnal ailasesiad o anghenion y person ac o ganlyniad fe allent gael eu hasesu'n gymwys am ofal iechyd parhaus. Yn yr achos hwn gallai'r cyfrifoldeb ariannu i ddiwallu anghenion y person drosglwyddo o'r awdurdod lleoli i'r GIG. Yr awdurdod lleoli sy'n gyfrifol am gysylltu â'r GIG mewn amgylchiadau felly.
- 7.2. Os yw lleoliad yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG, mae'n bosibl er hynny y bydd angen i'r awdurdod lleoli gysylltu â'r awdurdod lleol y mae'r person yn tarddu ohono. Gallai hynny fod yn gysylltiedig ag ymgysylltiad hanesyddol, neu oherwydd bod person o bosibl yn dychwelyd i'r ardal wreiddiol o dan A117 Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae gofyn i'r awdurdod lleol gymryd rhan ar y cyd â'r GIG i gomisiynu gwasanaethau felly. Yn yr un modd pan fydd person yn cael gwasanaethau wedi'u comisiynu gan dîm comisiynu arbenigol rhanbarthol, efallai y bydd angen i'r awdurdod cynnal gysylltu â chorff GIG yn yr ardal y mae'r person yn tarddu ohono.
- 7.3. Yn ystod y broses Diogelu Oedolion mae'n bosibl cynnal ailasesiad o anghenion y person ac o ganlyniad fe allent gael eu hasesu'n gymwys am ofal iechyd parhaus. Yn yr achos hwn gallai'r cyfrifoldeb ariannu i ddiwallu anghenion y person drosglwyddo o'r awdurdod lleoli i'r GIG. Yr awdurdod lleoli sy'n gyfrifol am gysylltu â'r GIG mewn amgylchiadau felly.
- 7.4. Os yw lleoliad yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG, mae'n bosibl er hynny y bydd angen i'r awdurdod lleoli gysylltu â'r awdurdod lleol y mae'r person yn tarddu ohono. Gallai hynny fod yn gysylltiedig ag ymgysylltiad hanesyddol, neu oherwydd bod person o bosibl yn dychwelyd i'r ardal wreiddiol o dan A117 Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae gofyn i'r awdurdod lleol gymryd rhan ar y cyd â'r GIG i gomisiynu gwasanaethau felly. Yn yr un modd pan fydd person yn cael gwasanaethau wedi'u comisiynu gan dîm comisiynu arbenigol rhanbarthol, efallai y bydd angen i'r awdurdod cynnal gysylltu â chorff GIG yn yr ardal y mae'r person yn tarddu ohono.

8.0. Sicrhau cyfathrebu effeithiol

- 8.1. Trwy gydol yr ymholiad diogelu mae'n rhaid i'r awdurdod cynnal a'r awdurdod lleoli aros mewn cysylltiad agos â'i gilydd. Rhaid i'r cydlynnydd arweiniol a enwyd a'r holl awdurdodau lleoli gael eu hysbysu o unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yr ymholiad neu drefniadau amddiffyn dros dro.

Bydd y penderfyniadau canlynol am ddarparwr gwasanaeth yn cael eu gwneud ar sail asesiad risg fesul achos a dylid eu rhannu gyda'r holl awdurdodau lleoli, os yw'r penderfyniadau'n ymwneud â materion diogelu oedolion perthnasol:

- Atal lleoli
- Defnyddio cosbau contractio
- Gweithredu cynllun gweithredu gwella gwasanaeth

- 8.2. Os yw'r awdurdod cynnal yn cael gwybod yn ystod ymholiad diogelu na all darparwr gofal ddarparu gwasanaeth diogel bellach, rhaid i hyn gael ei gyfathrebu'n glir wrth bob awdurdod lleoli.
- 8.3. Rhaid i unrhyw gamau gweithredu di-oed sy'n ofynnol i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth, megis trosglwyddo preswylwyr o un gwasanaeth i un arall, gael eu trafod mor gynnar ag sy'n bosibl â'r awdurdodau lleoli.

9.0. Datrys anawsterau neu anghydfodau

- 9.1. Dylid datrys anghytundeb proffesiynol mor gynnar ag sy'n bosibl yn unol â gweithdrefnau lleol, gan sicrhau bod diogelwch a lles yr oedolyn mewn perygl yn aros yn hollbwysig.
- 9.2. Dylid herio penderfyniadau yn barchus a dylent gael eu datrys trwy gydweithio. Gall anghytundeb godi mewn nifer o feysydd a dylai staff bob amser fod yn barod i adolygu penderfyniadau a chynllunau gyda meddwl agored. Sicrhau bod yr oedolyn sydd mewn perygl yn ddiogel yw'r flaenoriaeth. Dylid trafod anghytundebau yn fanwl a dylid sefydlu dulliau cyfathrebu priodol i osgoi camddechongli. Os na fydd staff gweithredol yn gallu datrys materion, dylid ymgynghori â rheolwyr uwch yn yr awdurdodau cynnal a lleoli.
- 9.3. Rhaid i'r cydlynnydd arweiniol a enwyd yn yr awdurdod cynnal adrodd wrth eu rheolwr atebol uniongyrchol ar unwaith am unrhyw sefyllfaoedd anodd neu anghydfodau sy'n peryglu canlyniadau diogelu, er enghraifft:
 - Os cydnabyddir na all y darparwr bellach ddiwallu anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth ac os nad oes dewis amgen ar gael ar unwaith
 - Os oes anghytundeb ynghylch cyllid
 - Os oes anghydfod rhwng awdurdodau lleoli a chynnal ynglŷn â gweithrediad y protocol.
- 9.4. Os oes anghydfod ynghylch gweithrediad y canllawiau hyn, cyllid, y broses ymchwilio neu'r canfyddiadau, mae'n hanfodol bod diogelwch yr oedolyn yn cael ei roi'n gyntaf. Dylai'r awdurdodau sicrhau bod diogelwch y person yn cael ei sicrhau neu ei gynnal a bod yr ymchwiliad yn dal i ganolbwyntio ar eu hanghenion ac anghenion eu teulu/gofalwyr, cyn i'r anghydfod gael ei ddatrys.

10.1 Arferion Da mewn Ymholiadau Sefydliadol

- 10.2. Mae'r egwyddorion a'r canllawiau ym mhob rhan o'r ddogfen hon yn berthnasol i bob achos lle mae'r cyfrifoldeb am ariannu / comisiynu ar gyfer oedolyn ar awdurdod mewn un ardal a lle mae'r pryderon am gamdriniaeth a/neu ecsbloetiaeth posibl yn codi mewn ardal arall, p'un a yw hynny'n ymwneud ag un oedolyn neu nifer o oedolion.
- 10.3. Rhywbeth arall i'w ystyried yw bod y ffactorau sy'n arwain awdurdodau at leoli pobl y tu allan i'w hardaloedd yn aml (ond nid bob amser) yn golygu bod angen darparwyr arbenigol iawn. Mae natur arbenigol anghenion y rheiny sy'n derbyn gwasanaethau fel hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o gael eu lleoli yn bell oddi wrth eu teulu a'r awdurdod cynnal, ac hefyd mae'n llai tebygol y bydd lleoliadau amgen ar gael yn hawdd.
- 10.4. Pan fydd pryder diogelu oedolion yn gysylltiedig â nifer o oedolion a nifer o awdurdodau lleoli, mae'r gwaith o gydlynu'r ymholiad yn fwy cymhleth. Er bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifir yn y canllawiau yn aros yr un fath yn bennaf, mewn ymholiadau fel hyn mae'n hanfodol bod gan bob awdurdod ddealltwriaeth glir o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol, waeth pa mor bell i fwrdd yw'r gwasanaeth lle codwyd y pryderon honedig.